

Iechyd y geg ymhlith plant blwyddyn un (5 oed) yn yr ysgol yng Nghymru 2022-23

Pwy gafodd ei archwilio?


Cafodd **9,376** o blant eu harchwilio o **612** o ysgolion y wladwriaeth a gynhelir ledled Cymru (tuag **1 o bob 3** o blant).*

Sut y gwnaethom fesur iechyd y geg?

Fe wnaethom gyfrif nifer y dannedd a oedd yn pydru neu wedi eu llenwi neu eu tynnu oherwydd y clefyd. Yna fe wnaethom gyfrifo faint o blant oedd â dannedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi ledled Cymru (a elwir yn **nifer yr achosion**) a chyfrifo nifer cymedrig y dannedd a oedd wedi'u heffeithio gan bydredd fesul plentyn (a elwir yn **ddifrifoldeb**).

Nifer yr achosion o bydredd dannedd

Ers 2007/08, gwelwyd gostyngiad yn **nifer yr achosion** o bydredd dannedd.




Roedd ychydig o dan **1 o bob 3** o blant a archwiliwyd wedi'u heffeithio gan bydredd dannedd.

Difrifoldeb pydredd dannedd

Ar draws yr holl blant a archwiliwyd, **roedd tuag 1 dant** wedi'i effeithio gan bydredd dannedd (y colofnau glas golau).

Roedd gan blant â phydredd dannedd **tua 3 1/2 o ddannedd** a oedd wedi'u heffeithio gan y clefyd (colofnau glas tywyll).

Ers 2007/08, gwelwyd lleihad yn **nifrifoldeb** pydredd dannedd.



Anghydraddoldebau iechyd y geg ledled Cymru

Mae lefelau uwch o **achosion** a **ddifrifoldeb** pydredd dannedd i'w gweld ymysg plant o ardaloedd o amddifadedd.

Nid yw'r patrwm hwn wedi newid ers 2007/08

Nifer yr achosion




Amddifadedd
lleiaf

43.4%



Amddifadedd
mwyaf

Difrifoldeb



Amddifadedd
lleiaf




Amddifadedd
mwyaf


Dosbarthiad nifer yr achosion a'r difrifoldeb ledled Cymru

Nifer yr achosion a **ddifrifoldeb** pydredd dannedd ledled Cymru

Roedd nifer y plant â phydredd dannedd yn amrywio o 19.6% yn BIA Powys i 44.0% yn BIP Cwm Taf Morgannwg.




Roedd difrifoldeb pydredd dannedd yn amrywio o 0.64 yn BIA Powys i 1.54 yn BIP Cwm Taf Morgannwg



Effaith pydredd dannedd ledled Cymru

Roedd pydredd dannedd yn cael effaith negyddol ar **18.4%** o'r plant a archwiliwyd (**bron i 1 o bob 5**)



*Nid oedd data ar gael ar gyfer Ceredigion (BIP Hywel Dda)

